



Joint Council for
Qualifications

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CBAC, OCR a Pearson

Penderfynu ar geisiadau posibl am ystyriaeth arbennig

Mae cyfres arholiadau Ionawr 2022 ar fin dechrau a theimlwyd y gallai'r ddogfen hon fod yn ddefnyddiol i'r canolfannau wrth iddynt benderfynu ar geisiadau posibl am ystyriaeth arbennig. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â chyhoeddiad y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* sydd i'w gweld ar ffurf ryngweithiol yn y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cael mynediad at y Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Mae'r ddogfen hefyd ar gael fel PDF ar wefan y CGC: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration>

Pa bryd y dylid gwneud cais am ystyriaeth arbennig?

Rhaid i'r system ystyriaeth arbennig fod yn deg a rhesymol.

Addasiad ar ôl arholiad yw ystyriaeth arbennig ar gyfer:

- ymgeisydd ag afiechyd dros dro ar ddiwrnod yr arholiad
- ymgeisydd ag anaf dros dro ar ddiwrnod yr arholiad
- ymgeisydd sy'n hunanynysu ar ddiwrnod yr arholiad
- ymgeisydd sy'n galaru ar ddiwrnod yr arholiad
- ymgeisydd â chyflwr meddygol neu seicolegol tymor hir sy'n dod i'r golwg ar ddiwrnod yr arholiad.

Cofiwch:

Rhaid i'r digwyddiad penodol a enwir fod wedi effeithio'n faterol ac yn niweidiol ar berfformiad yr ymgeisydd yn yr arholiad.

Rhaid cyfleu'r rheswm penodol dros amgylchiadau lliniarol yr ymgeisydd yn glir i'r corff dyfarnu pan gyflwynir cais ar-lein am ystyriaeth arbennig.

Pa bryd nad yw ystyriaeth arbennig yn berthnasol?

Nid yw'n gymwys defnyddio ystyriaeth arbennig pan fo amhariad cyffredinol wedi bod.

Manylion cyswllt Cyrff Dyfarnu

I gyflwyno unrhyw ymholiadau am y broses ystyriaeth arbennig, mae manylion y cyrff dyfarnu fel a ganlyn:

AQA

Ffôn: 0800 197 7162

Gwefan: www.aqa.org.uk

OCR

Ffôn: 01223 553 998

Gwefan: www.ocr.org.uk

Pearson

Ffôn: 0344 463 2535

Gwefan:

<http://qualifications.pearson.com>

WJEC/CBAC

Ffôn: 02920 265 000

Gwefan: www.cbac.co.uk